

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Thegwch (FEIA)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw rhoi gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a hyrwyddo ffyrdd gwell o weithio yn unol â chydaddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), a'r pedair agwedd ar y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn CTC i'r Cyngor, 2013).

**Cwblhawyd gan:** Deborah Weston

**Rôl:** Rheolwr y Gwasanaethau Addysg

**Pennaeth Gwasanaeth:** Sarah Morgan

**Dyddiad:** 07/11/2018

**Rwy'n cadarnhau bod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cytuno i gynnwys yr asesiad hwn**

**Oes / Nac oes**

**Pan fyddwch yn llenwi'r FEIA hwn, eich cyfrifoldeb chi yw ei gyflwyno i**

[impact.assessment@newport.gov.uk](mailto:impact.assessment@newport.gov.uk)

## **1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig sy'n cael ei asesu. Amlinelliad o ddiben y polisi.**

Y diben yw ceisio caniatâd i gynnig cyhoeddi hysbysiad statudol am 28 diwrnod mewn perthynas â'r cynnig "i sefydlu dosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu cyffredin â 10 lle i ddisgyblion rhwng 4 a 11 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion o fis Ebrill 2019 ymlaen".

## **2. Amlinellwch sut yr ydych wedi/sut y byddwch yn cynnwys rhanddeiliaid yr effeithir arnynt gan y polisi/cynnig**

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Gwahoddwyd rhestr helaeth o randeiliaid i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol a chynhaliwyd dau ddigwyddiad galw heibio ar wahân y gallai pobl y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt fynd iddynt i gael mwy o wybodaeth ac i rannu eu barn. Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad hyn yn yr ysgol. Daeth pum person i'r sesiwn galw heibio gyntaf, ac roedd pedwar ohonynt yn rhieni i blant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Roedd y pumed yn aelod o staff a gyflogwyd gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Daeth dau riant i'r ail sesiwn. Roedd un ohonynt wedi dod i'r sesiwn galw heibio gyntaf hefyd. O ystyried bod y cynnig ar gyfer darpariaeth â 10 lle, ac y daeth 5 riant ar wahân i'r sesiynau galw heibio, roedd cymhareb dda o ran ymgysylltu â rhandeiliaid.

Roedd y Cyngor yn awyddus i gael barn y dysgwyr, ac i'r perwyl hwn, trefnwyd cyfarfod penodol rhwng y Cyngor Ysgol a dau aelod o staff y Gwasanaeth Addysg ddydd Mawrth 16 Hydref 2018 yn Ysgol Gynradd Lodge Hill, Caerllion. Aeth 12 o blant i'r cyfarfod.

Bydd yr hysbysiad statudol bellach yn rhoi i randeiliaid gyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau cyfreithiol os ydynt yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol.

### **3. Pa wybodaeth/dystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd gwasanaeth ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol yn eich tyb chi.**

Mae'r Cod statudol yn amlinellu'r prif randeiliaid y dylid ymgynghori â nhw yn rhan o'r broses hon. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr fodd bynnag, ac mae'r Cyngor wedi nodi ac wedi ychwanegu ati o ganlyniad i adborth wedi'i dderbyn mewn perthynas â chynigion blaenorol. Gwahoddiwyd y rhanddeiliaid a amlinellir isod i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, naill ai drwy ddilyn dolen i'r pecyn ymgynghori ar wefan y Cyngor a chael pecyn electronig dros e-bost, neu fel arall, drwy gael copi caled o ddeunyddiau'r ymgynghoriad:

- Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Disgyblion Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol o fewn clwstwr Ysgolion Cyfun Caerllion: Ysgol Gyfun Caerllion, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams ac Ysgol Gynradd Langstone;
- Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion hynny yng Nghasnewydd sydd ar hyn o bryd yn cynnal darpariaeth Uned Adnoddau Dysgu: Ysgolion Cynradd Alway, Crindau, Gaer, Ysgol Feithrin Kimberley, Ysgolion Cynradd Llanmartin, Llys Malpas, Monnow, Pillgwenlli, Ringland, Tŷ-Du, Sant Andreas, Ysgol John Frost ac Ysgol St Julian;
- Pob aelod etholedig ar Gyngor Dinas Casnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a weinyddir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;
- Awdurdodau Lleol eraill ar draws rhanbarth Consortiwm De-Ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau Trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-Ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy;
- Archegobaeth Catholig;
- Estyn;
- Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

Hwyluswyd ymgysylltiad â disgyblion trwy gyngor yr ysgol. Mae Adroddiad Ymgynghori bellach wedi'i baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd cyhoeddi hysbysiad statudol yn galluogi rhandeiliaid i gyflwyno gwrthwynebiadau cyfreithiol yn erbyn y cynnig.

## 4. Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Nodwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu/erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol:	Negyddol	Y naill na'r llall	
<b>Oedran</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu'n helpu i ateb y galw sy'n cynyddu am ddarpariaeth addysg arbenigol gynradd Saesneg ledled Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Bydd y cynnig felly o fudd i bobl ifanc sy'n byw'n lleol ond nid yw'n unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall pobl ifanc o ledled y ddinas fanteisio arni a bydd felly'n cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd diogel a phriodol. Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
<b>Anabledd</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Canolfannau Adnoddau Dysgu i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob ysgol newydd gan fod hyn yn ategu agwedd fwy cynhwysfawr i ddisgyblion sydd angen mwy o gymorth o fewn amgylchedd prif ffrwd. Mae awydd hefyd symud i leoliad lle bod o leiaf un dosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Bydd adeilad newydd yr ysgol yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd yn llwyr. Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
<b>Ailbennu rhywedd/trawsryweddol</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Caiff unrhyw ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff y mae'r nodwedd hon a ddiogelir yn berthnasol iddynt eu trin yn gyfartal yn unol â'r polisiau perthnasol fel y'u mabwysiadir gan gorff llywodraethu'r ysgol.  Caiff y polisiau sy'n ymwneud â'r CAD eu datblygu i gefnogi unrhyw ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff y mae'r nodwedd hon a ddiogelir yn berthnasol iddynt.

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Nodwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu/erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol:	Negyddol	Y naill na'r llall	
<b>Priodas neu bartneriaeth sifil</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
<b>Beichiogrwydd neu famolaeth</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.  Caiff y polisiau sy'n ymwneud â'r CAD eu datblygu i gefnogi unrhyw ddisgyblion, rhieni / gofalwyr a staff y mae'r nodwedd hon a ddiogelir yn berthnasol iddynt.
<b>Hil</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu'n helpu i ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol gynradd Saesneg ledled Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Bydd y cynnig felly o fudd i bobl ifanc sy'n byw'n lleol ond nid yw'n unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall pobl ifanc o ledled y ddinas fanteisio arni a bydd felly'n cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd diogel a phriodol. Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol a disgybl sy'n mynychu'r ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir. Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod posibilrwydd uwch o anghenion dysgu ychwanegol yn effeithio ar ddisgyblion BAME.
<b>Crefydd neu Gred neu ddim cred</b>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Fodd bynnag mae'r ysgol yn dilyn yr holl agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol. Caiff pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol a disgybl sy'n mynychu'r ysgol ei drin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir.
<b>Rhyw / Hunaniaeth Rhywedd</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu'n helpu i ateb y galw sy'n cynyddu am ddarpariaeth addysg arbenigol gynradd Saesneg ledled Casnewydd, angen sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian. Bydd y cynnig felly o fudd i bobl ifanc sy'n byw'n lleol ond nid yw'n unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardal clwstwr hon. Gall pobl ifanc o ledled y

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Nodwch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol 3. Helpu i ddileu gwahaniaethu/aflonyddu/erledigaeth anghyfreithlon?
	Cadarnhaol:	Negyddol	Y naill na'r llall	
				ddinas fanteisio arni a bydd felly'n cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd diogel a phriodol. Caiff pob rhandeiliad sy'n gysylltiedig â'r ysgol a phawb eu trin yn gyfartal ni waeth ei statws o fewn y nodwedd hon a ddiogelir. Yn ystadegol, mae posibilrwydd uwch y bydd anghenion dysgu ychwanegol yn effeithio ar blant gwrywaidd yn fwy na phlant benywaidd.
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Caiff unrhyw randeiliaid y mae'r nodwedd hon a ddiogelir yn berthnasol iddynt eu trin yn gyfartal yn unol â'r polisiau perthnasol fel y'u mabwysiadir gan gorff llywodraethu'r ysgol.
<b>Y Gymraeg</b>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ysgol Saesneg yr Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Er ei bod yn dilyn yr holl agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol mewn perthynas â'r Gymraeg fel Ail Iaith, mae'n annhebygol o wneud cyfraniad ystyrlon at darged 5 mlynedd Casnewydd o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas.

## 5 Sut mae eich cynnig wedi ymgorffori a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei lunio?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
Cydbwyso anghenion tymor byr gydag anghenion hirdymor	<i>Ydy, trwy helpu i ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth addysg arbenigol ym mhob rhan o'r sector ysgol gynradd a galluogi disgyblion i fynychu ysgol sy'n fwy lleol i gyfeiriad eu cartrefi.</i>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
Cydweithio i gyflawni amcanion	<p><i>Trafodwyd y cynnig hwn yn fanwl gyda chorff llywodraeth Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion cyn bwrw ymlaen ag ef. Gwahoddwyd y rhanddeiliaid isod i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;</i></li> <li>• <i>Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;</i></li> <li>• <i>Disgyblion Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;</i></li> <li>• <i>Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu pob ysgol o fewn clwstwr Ysgolion Cyfun Caerllion: Ysgol Gyfun Caerllion, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams ac Ysgol Gynradd Langstone;</i></li> <li>• <i>Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu'r ysgolion hynny yng Nghasnewydd sydd ar hyn o bryd yn cynnal darpariaeth Uned Adnoddau Dysgu: Ysgolion Cynradd Alway, Crindau, Gaer, Ysgol Feithrin Kimberley, Ysgolion Cynradd Llanmartin, Llys Malpas, Monnow, Pillgwenli, Ringland, Tŷ-Du, Sant Andreas, Ysgol John Frost ac Ysgol St Julian;</i></li> <li>• <i>Pob aelod etholedig ar Gyngor Dinas Casnewydd;</i></li> <li>• <i>Gweinidogion Cymru;</i></li> <li>• <i>Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli'r ardal a weinyddir gan yr ysgolion sy'n destun y cynigion;</i></li> <li>• <i>Awdurdodau Lleol eraill ar draws rhanbarth Consortiwm De-Ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau Trafnidiaeth perthnasol;</i></li> <li>• <i>Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-Ddwyrain Cymru;</i></li> <li>• <i>Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy;</i></li> <li>• <i>Archesgobaeth Catholig;</i></li> <li>• <i>Estyn;</i></li> <li>• <i>Undebau llafur addysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion;</i></li> <li>• <i>Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent;</i></li> <li>• <i>Heddlu Gwent;</i></li> <li>• <i>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;</i></li> <li>• <i>Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan;</i></li> <li>• <i>Iechyd Cyhoeddus Cymru;</i></li> <li>• <i>Canolfan Serennu Casnewydd;</i></li> <li>• <i>SNAP Cymru;</i></li> <li>• <i>Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent;</i></li> <li>• <i>Gwasanaethau Ataliol.</i></li> </ul> <p><i>Hwyluswyd ymgysylltiad â disgyblion trwy gyngor yr ysgol. Bydd cyhoeddi hysbysiad statudol yn galluogi rhanddeiliaid i gyflwyno gwrthwynebiadau cyfreithiol yn erbyn y cynnig.</i></p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Disgrifiwch sut.
Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu barn	<p><b>Trefnwyd dau ddigwyddiad galw heibio ar wahân y gallai pobl y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt fynd iddynt i gael mwy o wybodaeth ac i rannu eu barn. Cynhaliwyd y ddau ddigwyddiad hyn yn yr ysgol. Daeth pum person i'r sesiwn galw heibio gyntaf, ac roedd pedwar ohonynt yn rhieni i blant sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Roedd y pumed yn aelod o staff a gyflogwyd gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Daeth dau riant i'r ail sesiwn. Roedd un ohonynt wedi dod i'r sesiwn galw heibio gyntaf hefyd. O ystyried bod y cynnig ar gyfer darpariaeth â 10 lle, ac y daeth 5 rhiant ar wahân i'r sesiynau galw heibio, roedd cymhareb dda o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid.</b></p> <p><b>Roedd y Cyngor yn awyddus i gael barn y dysgwyr, ac i'r perwyl hwn, trefnwyd cyfarfod penodol rhwng y Cyngor Ysgol a dau aelod o staff y Gwasanaeth Addysg ddydd Mawrth 16 Hydref 2018 yn Ysgol Gynradd Lodge Hill, Caerllion. Aeth 12 o blant i'r cyfarfod.</b></p> <p><b>Bydd yr hysbysiad statudol bellach yn rhoi i rhanddeiliaid gyfle i osod rhwymedigaethau cyfreithiol os ydynt yn teimlo bod hynny'n angenrheidiol.</b></p>
Defnyddio adnoddau er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu	<p><b>Mae'r angen am ddarpariaeth addysg arbenigol wedi tyfu'n sylweddol dros y 5-10 mlynedd diwethaf ac ar hyn o bryd nid oes Canolfan Adnoddau Dysgu yn ardaloedd clwstwr Caerllion neu St Julian.</b></p> <p><b>Mae'r cynnig hwn yn cynnig y manteision canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu Uned Adnoddau Dysgu cynradd o fewn clwstwr Caerllion;</li> <li>• Rhagor o argaeledd o ran lleoedd i dderbyn disgyblion sydd angen lleoliadau prif ffrwd a gynhelir;</li> <li>• Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n cael mynediad at ddarpariaeth a gynhelir er mwyn ail-integreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd:</li> <li>• Defnydd effeithiol o ofod yn adeilad newydd yr ysgol;</li> <li>• Defnyddio adnoddau'n well;</li> <li>• Rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygiad staff;</li> <li>• Ymgysylltu gwell gan rieni a'r gymuned.</li> </ul> <p><b>Bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion sy'n byw yn lleol, ond nid yw'n unig i'r rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Gall pobl ifanc o ledled y ddinas fanteisio ar y ddarpariaeth newydd a fydd yn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd diogel a phriodol Bydd hyn yn galluogi plant i fynychu ysgol sy'n fwy lleol i'w cartref.</b></p>
Ystyried effaith ar bob nod llesiant gyda'i gilydd ac ar gyrff eraill	<p><b>Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol wedi'i gynnal â rhanddeiliaid allweddol, a chaiff ei ganlyniad ei nodi yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus" a "Chymru fwy cyfartal" a "Cymru â Chymunedau Cydlynol" ac nid oes ganddo unrhyw effaith andwyol ar unrhyw Nodau Llesiant eraill. Mae'r cynnig hwn hefyd yn cefnogi Nod Llesiant Cyngor Dinas Casnewydd "I wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".</b></p>

## **6 A fydd y cynnig/polisi'n cael effaith anghymesur ar ardal ddaeryddol benodol o Gasnewydd?**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu mewn adeilad ysgol newydd sbon gan ei fod yn cefnogi dull mwy cynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae awydd hefyd i fod mewn sefyllfa lle y bydd o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, nac ychwaith yng nghlwstwr St Julian sydd gerllaw.

Bydd y cynnig, felly, o fudd i ddisgyblion sy'n byw yn lleol, ond nid yw'n unig ar gyfer y rheiny sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr hon. Gall disgyblion o ledled y ddinas fanteisio ar y ddarpariaeth hon a fydd yn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd diogel a phriodol

## **7 Sut mae'r cynnig/polisi yn ymwneud â'r dadleuon ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?**

8

Mae'r cynnig hwn yn helpu i ateb y galw sydd cynyddol ledled y ddinas yn sylweddol dros y 5-10 mlynedd i gael darpariaeth addysg arbenigol ledled dinas Casnewydd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath yn ardaloedd clwstwr Caerllion na St Julian. Bydd y cynnig, felly, o fudd i ddisgyblion sy'n byw yn lleol, ond nid yw'n unig ar gyfer y rheiny sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr hon. Gall disgyblion o ledled y ddinas fanteisio ar y ddarpariaeth hon a fydd yn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd diogel a phriodol

## **9 Gan ystyried yr asesiad hwn yn ei gyfanrwydd, beth gellid ei wneud i liniaru unrhyw effeithiau negyddol eich polisi a chyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?**

Roedd y cynnig yn destun ymgynghoriad llawn â rhanddeiliaid ac ystyriwyd unrhyw adborth wrth benderfynu ar y ffordd i symud ymlaen. Bydd y rhanddeiliaid bellach yn cael y cyfle i gyflwyno gwrthwynebiadau cyfreithiol yn y cam hysbysiad statudol.

## **10 Monitro, gwerthuso ac adolygu**

Bydd effaith y cynnig yn cael ei werthuso ar ôl ei weithredu'n llawn. Mae'r AEDCh hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn dilyn proses ymgynghori ffurfiol a gwneir hyn eto cyn cam nesaf y cynnig.

## **11 Cynnwys Pobl**

Rhoddyd rhaglen lawn o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar waith i ategu'r ymgynghoriad ffurfiol oedd yn cynnwys sesiynau galw heibio lle y gallai pobl ddysgu mwy am y cynnig. Roedd cyfle i glywed barn disgyblion trwy gyngor yr ysgol hefyd.



## 12 Crynodeb o'r Effaith (i'w gynnwys mewn unrhyw adroddiad)

### **Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r Gymraeg**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau Canolfan Adnoddau Dysgu mewn adeilad ysgol newydd sbon gan ei fod yn cefnogi dull mwy cynhwysol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae awydd hefyd i fod mewn sefyllfa lle y bydd o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, nac ychwaith yng nghlwstwr St Julian sydd gerllaw.

Er mwyn cefnogi addysgu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan na ystyrir bod addysg brif ffrwd yn briodol, mae gan yr Awdurdod Lleol nifer o Ganolfannau Adnoddau Dysgu ledled y Ddinas, wedi'u cynnal gan ysgolion unigol. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu wedi'u hatodi wrth ysgolion prif ffrwd ac maent yn darparu amgylcheddau dysgu sydd â niferoedd llai o ddisgyblion gyda chymarebau oedolion gwell. Mae'r Canolfannau Adnoddau Dysgu yn generig eu natur ac yn bodloni anghenion disgyblion sydd ag ystod o anawsterau. Mae'r ethos yn anelu at ddarparu cefnogaeth a dargedir i ddisgyblion unigol yn seiliedig ar eu hanghenion gyda'r bwriad o integreiddio'r disgybl yn ôl i ddsbarthiadau prif ffrwd fel sy'n briodol. Mae galw parhaus am leoliadau mewn Canolfannau Adnoddau Dysgu ar draws Casnewydd.

Mae'r cynnig hwn yn helpu i ateb y galw cynyddol ledled y ddinas yn sylweddol dros y 5-10 mlynedd i gael darpariaeth addysg arbenigol ledled dinas Casnewydd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth Canolfan Adnoddau Dysgu o'r fath yn ardaloedd clwstwr Caerllion na St Julian. Bydd y cynnig, felly, o fudd i ddisgyblion sy'n byw yn lleol, ond nid yw'n unig ar gyfer y rheiny sy'n byw o fewn yr ardal glwstwr hon. Gall disgyblion o ledled y ddinas fanteisio ar y ddarpariaeth hon a fydd yn cefnogi anghenion addysg penodol mewn amgylchedd diogel a phriodol

Ysgol gymunedol Saesneg yw Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion. Bydd yr ysgol yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob ffordd bosib a bydd yn dilyn pob agwedd ar y cwricwlwm cenedlaethol.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

I grynhoi, mae'r cynnig hwn yn cefnogi llesiant trwy gefnogi agwedd fwy cynhwysol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu Canolfannau Adnoddau Dysgu ym mhob ysgol newydd. Mae awydd hefyd i fod mewn sefyllfa lle y bydd o leiaf un Ganolfan Adnoddau Dysgu ym mhob clwstwr o ysgolion cynradd. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth o'r fath yng nghlwstwr Caerllion, nac ychwaith yng nghlwstwr St Julian sydd gerllaw. Bydd sefydlu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu hon yn galluogi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gael eu haddysgu mewn ysgolion sy'n fwy lleol i'w cartrefi.